



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

9 Ebrill 2021

9:00 am – 11:15 yb

Trwy gyfrwng M S Teams

Yn bresennol:	Mary Wimbury (MWim) (Cadeirydd), Alwyn Jones, Barry Argent, Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd Christine Jones, Y Cynghorydd Joan Lowe, Y Cynghorydd Louise Emery, Y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Fon Roberts, Helen Corcoran, Claire Lister (yn bresennol ar ran Jenny Williams), John Gallanders, John Gladston, Lucy Reid, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Rob Smith, Roma Hooper, Shan Lloyd Williams, Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Chris Stockport, Y Cynghorydd Louise Emery, Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Dr Lowri Brown, Ffion Johnstone, Jenny Williams, Jo Whitehead, Mark Wilkinson, Morwena Edwards, Meinir Williams-Jones, Paul Scott, Sam Parry

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd y Cadeirydd Barry Argent a Delyth Lloyd-Williams, a benodwyd yn ddiweddar fel cynrychiolwyr Gofalwyr, i'w cyfarfod cyntaf o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.02.2021 yn gywir.

Camau Gweithredu a gwblhawyd:

- Ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth - dosbarthu'r llythyr a'r ymateb terfynol i aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- Datganiad i'r wasg – cadeirydd newydd a rhoi gwybod i drigolion Gogledd Cymru am waith y Bwrdd
- TO i drafod pryderon am y ffrwd waith ddigidol gyda BEJ
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb Gyfun NS/MWim

Camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau:

- Dosbarthu llythyr PB i LIC a'r ymateb ar ôl ei dderbyn - RW
- FJ i ddarparu rhagor o wybodaeth am nifer y bobl sy'n dewis peidio â derbyn y brechlyn. Rhoddodd FJ wybod cyn y cyfarfod bod gwaith yn mynd rhagddo ac roedd cais wedi'i wneud am wybodaeth ar niferoedd yn ôl clwstwr.

Cam Gweithredu

- Rhannu dolenni'r wasg â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – RW

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Iechyd a Gofal - Nicola Stubbins

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad byr gan NS am y Grŵp Iechyd a Gofal.

Mae'r grŵp yn parhau i gyfarfod fel is-grŵp o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Mae'r prif faes gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar y pwysau cynyddol yn y Gorllewin ac archwilio cymorth cydfuddiannol gan bartneriaid yn ddiweddar.

Rhoddodd NA wybod hefyd fod JGr, Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Gofal a Phrif Swyddog Gweithredol (PSG) Arweiniol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi rhoi gorau i'w rôl fel PSG CSDd a bydd angen trafod trefniadau dros dro ar gyfer cadeirio'r Grŵp Iechyd a Gofal a'r arweinydd portffolio Iechyd a Gofal Cymdeithasol PSG a fydd yn cynrychioli PSG ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cam Gweithredu

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – NS

4 Cyllid Gofal Integredig - Neil Ayling

Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Cyllid Gofal Integredig 2021/22

Darparodd NA amlinelliad o Raglen Buddsoddi Cyfalaf Cyllid Gofal Integredig 2021/22 i'w chymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

- Mae gan y Rhaglen Fuddsoddi ddyraniad cyllid o £9.413miliwn

- Mae'n ofynnol i'r rhaglen fanwl ar gyfer 2021/22 gael ei chyflwyno i LIC erbyn 31 Mawrth 2021 ac mae disgwyl i'r rhaglen 5 mlynedd lawn ar gyfer 2021-2026 gael ei chyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2021.
- Bwriad y rhaglen gyfalaf Cyllid Gofal Integredig yw cefnogi cynlluniau a gweithgareddau sy'n darparu dull integredig a chydweithredol effeithiol mewn perthynas a:
 - Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir
 - Dementia
 - Pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr
 - Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd
 - Plant Ymyrraeth Gynnar mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal
- Yn y canllawiau newydd, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ranbarthau gael mwyafrif sylweddol o brosiectau tai a llety yn 2021/22 ac i'r dyfodol.
- Ni fydd prosiectau cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig newydd yn cael eu cymeradwyo nes y bydd y cynllun rhanbarthol manwl wedi cael ei asesu gan dîm Cyfalaf Cronfa Gofal Integredig LIC a'i fod yn amlwg y bydd prosiectau arfaethedig newydd yn ymateb i angen.

Bydd y rhaglen ranbarthol fanwl yn cael ei chyflwyno ar y templed a gymeradwywyd gan LIC sy'n ymofyn manylion am:

(1) y Ddarpariaeth Bresennol o ran Tai a Llety,

(2) yr anghenion na fodlonwyd hyd at 2025 a'r

(3) Cynllun Rhaglen Gyfalaf i fodloni'r anghenion hynny.

- Mae'r angen am fuddsoddiad cyfalaf i gefnogi'r argymhellion yn adroddiad y Comisiynydd Plant, Dim Drws Anghywir wedi'i gydnabod.
- Mae disgwyl y bydd sefydliadau partner yn cyfrannu at brosiectau lle bo hynny'n briodol a gellir gwneud hyn drwy asedau neu gyllido uniongyrchol.

Bydd ceisiadau am gyllid i dalu cyfanswm costau prif brosiectau cyfalaf ond yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol pan fo cyfiawnhad cymhellol dros wneud hynny.

- Mae 18 o brif brosiectau cyfalaf yn Rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf 2021/22 a fydd yn cael eu blaenoriaethu, mae 9 o'r rhain ar y gweill ac wedi derbyn cyllid yn y gorffennol.

Dim ond 6 o'r rhain sy'n ymofyn cyllid ychwanegol yn 2021/22 gan fod 3 ohonynt yn defnyddio arian nas gwariwyd o flynyddoedd blaenorol. Mae 9 prosiect newydd ar gyfer 2021/22.

- Mae gan y rhaglen ranbarthol 12 cynllun sy'n cynnwys tai/llety, 3 cynllun sy'n cefnogi'r adroddiad Dim Drws Anghywir, cyfleuster hyfforddiant/Cyflogaeth AD, Canolfan AD a Chanolfan Dementia.

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhellion isod:

- i. Nodi gwerth ac amrywiaeth y cynlluniau o fewn y rhaglen
- ii. Cymeradwyo'r rhaglen
- iii. Nodi canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf 2021/22
- iv. Nodi'r gofyniad am Raglen Cyfalaf BPRh 5 mlynedd (2021-2026)

Adroddiad Llithriant Dementia'r Gronfa Gofal Integredig

Darparodd NA drosolwg o'r 11 cynllun a gaiff eu hariannu gan yr arian llithriant Dementia rhanbarthol a'r defnydd o'r arian i gefnogi Strategaeth Dementia Gogledd Cymru.

- Nodwyd llithriant o £91,500 yn sgil oedi o ran recriwtio am Reolwr Prosiect Dementia Gogledd Cymru Rhanbarthol a Rheolwr Prosiect Dementia (ar y cyd â Phowys) Cenedlaethol.
- Cytunwyd ar broses ymgeisio ar gyfer y llithriant ac fe'i agorwyd i bob partner, derbyniwyd a sgoriwyd 10 cais am gyllid.
- Cymeradwywyd y cyllid ar gyfer darparu'r gwasanaeth cof ar-lein ar draws y rhanbarth sy'n flaenoriaeth ac yn fater sylweddol ar draws yr ardal.
- Cytunwyd y byddai pob ALI yn derbyn £10,400.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo'r argymhellion isod:

- i. Nodi amrywiaeth a gwerth y cynlluniau llithriant dementia
- ii. Nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau Dementia a gyflwynir gan y prosiectau llithriant a gymeradwywyd gan y Grŵp Llywio Dementia.

Canllawiau Cronfa Graddio Rhaglenni Trawsnewid

Mae £1.342miliwn o arian Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) wedi'i gyhoeddi ar gyfer Gogledd Cymru yn 2021/22. Cytunodd aelodau Llywodraeth Leol (dros e-bost ar 11/12 Mawrth) mai'r dewis a ffeirir yw dyrannu'r un rhaniad canrannol â chyllid D2RA blaenorol a pharhau i reoli hyn drwy broses y Gronfa Gofal Integredig.

Mae disgwyl i gynllun rhanbarthol lefel uchel gael ei gyflwyno i LIC heddiw, 9 Ebrill.

Roedd NS yn cydnabod y cymorth a ddarparwyd gan Reolwr Rhaglen y Gronfa Gofal Integredig a'r tîm er mwyn cwblhau'r holl adroddiadau uchod.

Gofynnodd EH a oedd cyllid y prosiectau yn ddiogel o ystyried ansicrwydd y Gronfa Gofal Integredig.

Cadarnhaodd NA bod lefel resymol o sicrwydd, gyda phob partner yn cadarnhau fod y prosiectau yn gynaliadwy i drawsnewid lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

5 Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan NS ar Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Mae gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu wedi bod yn mynd rhagddo ers sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae cyllid LIC, sydd ar gael tan fis Mawrth 2022, wedi ein galluogi i gyflogi Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu dynodedig.
- Mae Cymru Iachach (Llywodraeth Cymru, 2018), yn nodi ymgysylltu â'r cyhoedd fel blaenoriaeth allweddol - fel egwyddor ar gyfer llunio'r system iechyd a gofal, ac fel modd o gyflawni nifer o ganlyniadau a ffafir.
- O fewn y Cynllun ar gyfer Darparu Cymru Iachach, mae'r Bwrdd yn nodi ei fod yn ymdrechu i fod yn bartneriaeth sy'n ysgogi trawsnewidiad yn seiliedig ar wrando a dysgu.

Mae'n hyrwyddo'r angen i wrando ar ei boblogaeth i'n galluogi i siapio'r gwasanaeth. Bydd y strategaeth yn amlinellu'n glir sut fydd y Bwrdd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu o fewn y rhanbarth.

- Er mwyn llywio'r strategaeth, ymgysylltwyd â swyddogion Cyfathrebu ac Ymgysylltu o'r 6 Awdurdod Lleol a thimau Ymgysylltu'r Bwrdd lechyd ynghyd â Chynghorau Gwirfoddol Sirol, GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ystod o sefydliadau cenedlaethol megis CGGC a Fforwm Cymru Gyfan, Gwasanaeth

Tân ac Achub Gogledd Cymru; Cymdeithasau Tai, yn ogystal â chynrychiolwyr Gofalwyr a Dinasyddion ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Nododd y Cynghorydd BF ei bod o blaid cymeradwyo hyn, fodd bynnag, awgrymodd bod angen bod yn fwy rhagweithiol ar draws Gogledd Cymru, nid yn unig o ran gwaith y bwrdd, ond drwy ymgorffori'r holl brosiectau.

Nododd MWim bod angen diwygio'r adran ar gryfhau'r iaith Gymraeg a'r 'ddyletswydd ar ddarparwyr gofal i sicrhau bod ganddynt staff â sgiliau ieithyddol priodol.' Rhoddodd MWim wybod fod gan bob sefydliad statudol ddyletswydd mewn perthynas â'r iaith ac mae hyn yn uchelgais cyffredin i'r Darparwyr.

Gofynnodd SLW a fyddai modd i rôl y Cymdeithasau Tai fod yn fwy penodol o fewn y strategaeth, gan fod gan y sector berthynas dda â chymunedau lle mae bylchau anghydraddoldebau iechyd yn bodoli ymhlith y boblogaeth.

Nododd EH yr angen i egluro'r canlyniadau i'w cyflawni o ganlyniad i'n hymgysylltiad y tu hwnt i ymwybyddiaeth sylfaenol.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru o blaid cymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu, unwaith y bydd y diwygiadau wedi'u gwneud, er mwyn dechrau â'r ddarpariaeth ar unwaith i gefnogi rhaglenni gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cam Gweithredu

- Cytunodd NS i ddarparu adborth i'r Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

6 Rhaglenni Trawsnewid – Adroddiadau Gwerthuso - Nicola Stubbins/Chris Stockport/Neil Ayling/ Teresa Owen

Adroddiad Gwerthuso Drafft Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol

Rhoddodd AJ gyflwyniad ar Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol yn absenoldeb CS. Sefydlwyd y rhaglen hon er mwyn gwella gwasanaethau integredig yn y gymuned, gyda'r weledigaeth strategol o drawsnewid gwasanaethau cymunedol i alluogi cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl o fewn eu cartref; ac mae nifer sylweddol o wasanaethau wedi'u datblygu ar draws y tair ardal ranbarthol, er mwyn sicrhau bod y ffocws lleol hanfodol yn cael ei gyflawni.

Yn sgil effaith Covid-19 ar adnoddau a gweithgarwch yn 2021/22, lleihawyd y rhaglen gan ail-gyfeirio'r cyllid i TG ac addasu'r gwaith er mwyn cynorthwyo â Covid yn ystod y cyfnod hwn.

Mae rhai o'r meysydd cynnydd ers yr adroddiad gwerthuso hanner ffordd yn cynnwys:

- Sefydlwyd tair ardal leol iechyd a gofal cymdeithasol integredig o fewn yr ardal Ganolog.
- Mae Partneriaid o Iechyd Cyhoeddus wedi cwblhau Asesiad o Anghenion Lleol lefel uchel ar ran y rhanbarth.
- Dyrannwyd cyllid pennu cyfeiriad i 5 'ardal leol' er mwyn helpu i gefnogi dysgu allweddol mewn perthynas â datblygu ardaloedd lleol iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Mae adroddiad manwl ynghylch y dulliau darparu amgen ar gyfer gofal integredig wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo adroddiad gwerthuso Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol a'r argymhellion isod:

Adroddiad Gwerthuso Drafft y Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Cyflwynodd NS adroddiadau am y Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc:

Adroddiad Gwerthuso ar gyfer Gwasanaeth Therapi Aml-Systemig Gogledd Ddwyrain Cymru – y rhaglen hon yw'r unig raglen Therapi Aml-Systemig yng Nghymru ac mae adborth cadarnhaol yn y ddogfen werthuso.

Adroddiad cynnydd ar gyfer Gwasanaeth Bwthyn y Ddol – canolfan asesu breswyl newydd a gaiff ei datblygu yn yr ardal ganolog. Mae'r prosiect yn datblygu'n gyflym, mae caniatâd cynllunio wedi'i gyflwyno ac mae contractwr wedi'i benodi.

Mae gwerthusiad cyffredinol y Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn dangos sut mae'r ffrydiau gwaith gwahanol wedi gwneud gwelliannau sylweddol, hyd yn oed yng nghyd-destun Covid-19 lle mae rhaglenni wedi addasu eu bwriad, a chanfod gwelliannau a fydd yn parhau i symud yn eu blaenau.

Ystyriwyd pob adroddiad gan y Bwrdd Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc a chytunwyd yn gyffredinol â'r cynnydd a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd, nodwyd yr argymhellion canlynol:

1. Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu cynllun gwerthuso ar gyfer 2021/22, i gynnwys gweithgareddau a fydd yn cefnogi cynlluniau cynaliadwyedd y tu hwnt i ddiwedd y Rhaglen Drawsnewid. Gallai hyn gynnwys hwyluso gweithdai i Grwpiau Llywio er mwyn dod â phartneriaid at ei gilydd a sicrhau ymrwymiad i integreiddio dulliau gwasanaeth newydd i'w cynlluniau strategol/busnes ar gyfer 2022/23 ymlaen. Bydd yn rhaid ystyried digwyddiadau lansio ar gyfer y ddarpariaeth asesu breswyl newydd.

2. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod cam terfynol y gwerthusiad yn gysylltiedig â datblygiadau a gaiff eu hariannu drwy ffrydiau cyllido a mentrau eraill, er enghraifft, Dim Drws Anghywir / Y Matrics Plant er mwyn sicrhau dealltwriaeth gydlynol a holistaidd o'r canlyniadau ar draws y prosiectau trawsnewid i lywio penderfyniadau mewn perthynas â datblygiadau gwasanaeth parhaus i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cymeradwyo adroddiad gwerthuso'r Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Adroddiad Gwerthuso Drafft y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu

Rhoddodd NA adroddiad ar y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu, y rhaglen Cymru iachach gyntaf i gael ei hariannu yn y rhanbarth. Y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu yw cangen weithredol Strategaeth Anableddau Dysgu 2018-2023, ac yn seiliedig ar y pethau y mae pobl wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw; rhywle braf i fyw, rhywbeth ystyrion i'w wneud, ffrindiau, teulu a pherthnasoedd, bod yn ddiogel, bod yn iach a chael y gefnogaeth gywir.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a datblygu dulliau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl, mae pum ffrwd gwaith:

- Strwythurau integredig.
- Datblygu'r gweithlu.
- Comisiynu a chaffael.
- Cymuned a diwylliant
- Technoleg gynorthwyol

Mae datblygiad y cynllun peilot cyllideb gyfun yn Sir Fôn sy'n cynnwys prosesau sy'n hyrwyddo penderfyniadau integredig a phrofiadau di-dor i'r defnyddiwr, a'r ffrwd gwaith technoleg, wedi bod yn ffactor cadarnhaol o ran helpu pobl i ymdopi yn ystod y pandemig.

Mae'r Bwrdd Trawsnewid Anableddau Dysgu'n cynnwys cynrychiolaeth dda gan ofalwyr a phobl â phrofiadau byw a ystyrir fel mantais i'r Rhaglen.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo adroddiad gwerthuso'r Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu a'r argymhellion

Adroddiad Gwerthuso Drafft Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Cyflwynodd TO adroddiad ar y Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a oedd wedi gwneud cynnydd da yn y cyfnod cyn y pandemig. Mae'r gwerthusiad yn adrodd hanes y gwaith a gwblhawyd, gan gynnwys cofnodion risg a diweddariadau. Mae'r Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi cael ei hailystyried o ran y cyllid, a'r perygl mwyaf yw anghenion anhagwladwy'r gymuned i'r dyfodol o ganlyniad i Covid-19. Mae'r rhaglen yn cynnig ffordd newydd o weithio ac yn sicrhau proses gynaliadwy o ran dealltwriaeth o'r gofynion newydd yn dilyn Covid i'r dyfodol.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo adroddiad gwerthuso'r Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'r argymhellion.

Holodd JGal ynghylch y gwaith a ariennir drwy gynlluniau grant, yn arbennig meysydd risg uchel, roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol angen bod yn ofalus wrth symud ymlaen, gan fod yr amser yn brin ar gyfer gwreiddio a thrawsnewid, holodd ynghylch unrhyw bwysau arbennig wrth ystyried cyllid grant i'r dyfodol.

Rhoddodd NS sicrwydd i JGal fod pob un o Noddwyr y Rhaglen wedi bod yn ymwybodol o derfyn amser y ffrwd gyllido o'r dechrau. Mae'r cyllid ychwanegol am 12 mis wedi galluogi i'r gwaith gael ei wreiddio'n llawn. Mae gan bob Rhaglen Drawsnewid gofnodion risg a bydd y rhaglen yn dechrau canolbwyntio ar strategaethau gadael cyn bo hir, gan nodi'r gwasanaethau a fydd yn cael eu cadw, ail-gyfeirio cyllidebau craidd a symud oddi wrth ffyrdd traddodiadol tuag at ffyrdd mwy arloesol o weithio.

Nododd y Cynghorydd LIMH yr angen i fod yn ymarferol mewn perthynas â chyllid cyfalaf a refeniw a'r angen i'r ALI wneud penderfyniadau anodd o ran arbedion.

Amlygodd DLW fod Gofalwyr yn cael eu gwrthio i'r pen ar hyn o bryd, ar ôl gweithio'n ddiflino yn ystod Covid-19, a gofynnodd iddynt ystyried hyn o fewn y gwaith Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Nododd NA bwynt DLW a chadarnhaodd fod Gofalwyr yn cael eu cynnwys i ryw raddau ym mhob rhaglen, a bydd y ddarpariaeth gefnogaeth yn ystod ac yn dilyn Covid yn cael ei hintegreiddio i'r ffyrddiau gwaith.

Nododd bob aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru y pryderon mewn perthynas â chyllid wrth symud ymlaen yn dilyn Covid.

Mesuryddion Perfformiad Blwyddyn 3 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

ytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo mesurau Perfformiad Blwyddyn 3 a'r Rhaglenni Trawsnewid.

Addasu Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Gofal Mwy Dwys

Cyflwynodd AJ y gwaith ar Addasu a'r cais i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer cytundeb mewn egwyddor i ymgysylltu â'r prosiect gofal mwy dwys / osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty.

Mae'r papurau Diffiniadau Data ar gyfer Modelu yn seiliedig ar waith 'Addasu Gwasanaethau Cymunedol i Ryddhau Cleifion' a ddatblygwyd gan yr Athro John Bolton, maent wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn rhan o'r Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol. Arweinir y diffiniadau data gan Uned Gyflawni'r GIG.

ae'r prosiect 'Addasu ar gyfer Gofal Mwy Dwys' yn anelu at helpu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i benderfynu a oes ganddynt ddigon o gapasiti o fewn y gwasanaethau cymunedol i gynnig gofal mwy dwys i bobl a/neu osgoi'r angen iddynt fynd i'r ysbyty e.e. Ymateb i Argyfwng; Gofal Mwy Dwys yn y Cartref; Ailalluogi Mwy Dwys; Gofal Mwy Dwys yn y Gwely; a Thimau Integredig.

Mae'r model yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol brys ehangach (e.e. rheoli cyflyrau cronig, gofal lliniarol, ymatebion trydydd sector) er eu bod y tu allan i ddiffiniad ffurfiol Gofal Canolraddol.

Bwriad y dull yw cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i 'wybod eu ffigyrau' o ran capasiti a'r galw am wasanaethau Gofal Canolraddol. Bydd hyn yn galluogi i wasanaethau gael eu comisiynu mewn modd cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn bodloni anghenion poblogaeth Gogledd Cymru.

Y nod yw cyfuno data a gwybodaeth a gasglwyd drwy'r prosiectau addasu (gofal llai dwys i ryddhau cleifion o'r ysbyty a gofal mwy dwys i osgoi derbyniadau i'r ysbyty) er mwyn efelychu gallu a galw, a chynyddu'r defnydd o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol prin.

Mae menter sydd wedi'i halinio â Chydrannau 4, 5 a 6 o'r Fframwaith Integredig ar gyfer Pobl Hŷn yn cael ei gweithredu fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol:

CYDRAN 4: Rhoi mwy o ofal imi a'm cadw gartref

CYFRAN 5: Rhoi gofal da imi

CYDRAN 6: Rhoi llai o ofal imi a galluogi imi gyrraedd adref yn ddiogel

Nododd AJ bod rhai pryderon mewn perthynas â'r data a gasglwyd fel rhan o'r prosiect addasu i ryddhau cleifion:

- p'un a yw'r nifer yn gywir;
- ansawdd y ffynhonnell ddata

Os na fydd y materion hyn yn cael eu datrys, ni fydd gwaith yn mynd rhagddo.

Nododd AJ yr opsiynau o ran cyllid:

Defnyddio Cronfa Graddio Trawsnewid i gomisiynu Grant Thornton i wneud y gwaith (mae GT eisoes yn gwneud y gwaith addasu i ryddhau cleifion i ni);

Defnyddio swyddogion IMS mewnol presennol. Nid yw cyfanswm y cyllid wedi'i bennu eto, oddeutu £75,000 ar draws y rhanbarth.

Gofynnodd y Cynghorydd BF a oedd yna unigolyn allweddol fyddai'n gallu cael mynediad at y wybodaeth hon neu ffordd o gasglu'r data cywir gofynnol.

Rhoddodd AJ wybod bod angen poblogi anghenion model yr Athro John Bolton yn rhanbarthol a bydd angen i ystod o bobl sydd â'r wybodaeth, arbenigedd a dyhead o ran y gofynion rhanbarthol weithredu'r model.

Roedd y Cynghorydd LIMH yn ystyried bod y cais hwn yn syniad da, fodd bynnag, roedd yn credu y byddai'n ymofyn llawer o amser ac arian, roedd yn credu y byddent yn elwa o rannu'r gwaith caled rhwng Awdurdodau Lleol unigol. Byddai'n rhaid rhoi sylw hefyd i ystyriaeth demograffig a'r duedd mewn awdurdodau arbennig a sut fydd anghenion y boblogaeth i'r dyfodol yn cael eu modelu. Roedd y Cynghorydd LIMH yn argymhell parhau â'r gwaith a dychwelyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol gydag adroddiad o'r wybodaeth ddiweddar.

Cytunodd AJ ei fod yn fwy o waith na'r disgwyl ac mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'n systemau ein hunain er mwyn sicrhau fod y data cywir yn cael ei fwydo i'r model er mwyn caniatáu i'r cynllun peilot lwyddo.

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru mewn egwyddor i symud ymlaen â'r cynllun peilot am y tro a darparu adroddiad o'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Mehefin/Gorffennaf.

Cam Gweithredu

- Addasu Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Gofal Mwy Dwys ar Rhaglen Mehefin/Gorffennaf – RW

7 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trydydd Sector mewn perthynas â strategaeth ar gyfer cyfleoedd cyllido

Nodwyd swyddog dynodedig o'r rîm rhanbarthol i gefnogi'r rhaglen hon.

Mae cyfleoedd cyllido yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, yn ogystal â phwysau ariannol ffrydiau gwaith sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, a'r posibilrwydd o'r Trydydd Sector yn darparu cyllid i gefnogi'r gweithgarwch lefel is a nodwyd i sicrhau parhad gwasanaethau.

Rhoddodd JGal wybod fod y grŵp yn y broses o geisio cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol.

Fe wnaeth TO gynnig trafod y drafodaeth cyn Covid mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed ar Werth Cymdeithasol a thrafodaeth ar gysylltiadau dros y ffin ar wahân â JGal.

Gofynnodd JGal am sylwadau'n ymwneud â'r Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol presennol: John.Gallanders@avow.org

Camau Gweithredu

- TO i gysylltu â JGal
- Sylwadau mewn perthynas â chyfarfod y Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol at JGal.

8 Unrhyw Fater Arall

Fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol

Rhoddodd NS wybod am y llythyr uchod gan LIC sy'n dod â'r fframwaith i sylw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn ceisio cefnogaeth i'w roi ar waith.

Uchelgais y fframwaith yw cyflawni dull cyson, teg a holistaidd i'r ffordd y caiff anghenion lles dysgwyr a'r gymuned ysgol ehangach eu bodloni. Mae'n ategu at y cynlluniau cwricwlwm ysgol newydd a gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y GIG o dan y Rhaglen Gyda'n Gilydd Dros Blant a Phobl Ifanc i ddatblygu dull 'systemau llawn' ehangach ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hyn, ynghyd â'r Fframwaith Dull Ysgol Gyfan, yn sicrhau bod anghenion lles plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni mewn modd amserol a phriodol.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y rôl y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ei chymryd i oruchwylio, craffu a gwreiddio'r fframwaith. Yn yr un modd, cyfeirir at GWE (y Consortia Ysgolion), a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliad ar rôl bob sefydliad yn eglur yn y ddogfen, ac mae'n bosibl ei ddehongli fel bod angen i ddisgwyliadau gael eu pennu'n lleol.

Rhoddodd NS wybod am gyfarfod cychwynnol â'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc â chydweithwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd lechyd i drafod goruchwyliaeth y fframwaith. Cytunwyd nad Bwrdd Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc oedd y fforwm priodol ar gyfer y gwaith hwn gan nad yw'r bwrdd yn cynnwys aelodau o'r Gwasanaethau Addysg. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu â Chyfarwyddwyr Addysg yr ALI, GWE, lechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i gael trafodaeth anffurfiol mewn perthynas â goruchwyliaeth y gwaith hwn. Bydd NS yn cynrychioli Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Gofynnodd y Cynghorydd BF am yr amserlen ar gyfer y gwaith wn.

Cadarnhaodd NS nad oedd amserlen wedi'i nodi, y cam cyntaf oedd cwblhau hunanasesiad. Bydd yr amserlen yn cael ei phennu ar ôl cwblhau'r hunanasesiadau a gwaith amlasiantaeth i bennu'r flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth.

Cam Gweithredu

- NS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol.

9 Darparwyd y dogfennau canlynol er gwybodaeth:

1. Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal – Diweddariad Terfynol a Datganiad Ysgrifenedig
2. Adroddiad Blynyddol y Gronfa Gofal Integredig – 2019 - 20
3. Llythyr gan Julie Morgan AS, mewn perthynas â'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
4. Datganiad i'r wasg – tymor cadeirydd newydd a rhoi gwybod am waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru